

ADRODDIAD BLYNYDDOL

2020

Cardiff & Vale HealthCharity ElusenIechyd Caerdydd a'r Fro

GIG CYMRU NHS WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Cardiff and Vale University Health Board

CYNNWYS

Rhagair	**1**
Tîm y Celfyddydau	**3**
Celf yn ystod COVID	**5**
Oriel HeARTh	**10**
Ysbyty Athrofaol Llandochau	**12**
Ysbyty'r Barri	**18**
Ysbyty Brenhinol Caerdydd	**19**
Ysbyty Dewi Sant	**20**
Ysbyty Athrofaol Cymru	**21**
Ledled y Bwrdd Iechyd Prifysgol	**24**
Ein Huchelgais ar gyfer 2021 - 22	**27**
Myfyrdodau	**28**
Diolch a Chydnabyddiaeth	**29**

RHAGAIR

CHARLES JANCZEWSKI - CADEIRYDD - BWRDD IECHYD PRIFYSGOL CAERDYDD A'R FRO

Rwy'n falch iawn o'ch croesawu i adroddiad blynyddol y Celfyddydau dros Iechyd a Llesiant ar gyfer 2020-2021. Mae'r adroddiad hwn yn dangos y rôl gynyddol bwysig y gall celfyddyd, yn ei holl ffurfiau, ei chwarae yn llesiant ein cleifion a'n staff, yn enwedig ar adeg mor heriol ag yr ydym yn byw drwyddi ar hyn o bryd.

Mae'r ystod o brosiectau a chyfranwyr yn arwydd clir o'r effaith a'r apêl gadarnhaol y mae'r celfyddydau yn eu cael arnom oll, ac mae'r modd y mae rhaglen y Celfyddydau dros Iechyd a Llesiant gyda chymorth Cyngor Celfyddydau Cymru a Chydffederasiwn GIG Cymru wedi addasu er mwyn parhau i roi llawenydd i bob un ohonom wedi bod yn wirioneddol ryfeddol.

Edrychaf ymlaen at y flwyddyn i ddod a gweld ffrwyth y prosiectau celfyddydol hyn a rhai'r dyfodol.

CYFLWYNIAD

Mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith ddofn ar fywyd yn y Deyrnas Gyfunol gyda llawer o sectorau diwydiant wedi eu heffeithio gan y dirywiad economaidd a achoswyd gan y feirws a'r camau angenrheidiol a gymerwyd i'w liniaru fel y cyfyngiadau clo a'r cadw pellter corfforol.

Un sector lle mae canlyniadau cymdeithasol ac economaidd y pandemig wedi'u teimlo'n arbennig o drwm yw diwydiant y celfyddydau. Yn ôl Mynegai'r Celfyddydau diweddaraf, ar draws y Deyrnas Gyfunol mae buddsoddiad cyhoeddus yn y celfyddydau fesul y pen wedi gostwng yn ddramatig dros y degawd diwethaf. Gan ddechrau gyda gostyngiad sylweddol mewn cyllid yn dilyn argyfwng ariannol 2008, mae sector y celfyddydau oddi ar hynny wedi wynebu gostyngiad o 35% mewn cyllid cyhoeddus ar lefel genedlaethol.

Mae'r pandemig wedi bod yn her ar wahân i'r GIG; un o'r mwyaf difrifol y mae wedi'i wynebu ers sefydlu'r gwasanaeth yn 1948. Mae'r ystyriaethau sy'n ymwneud â thrin cleifion â COVID-19 yn uniongyrchol wedi'u dogfennu'n dda ond mae ailflaenoriaethu adnoddau i alluogi hyn i ddigwydd wedi arwain at ganlyniadau pellgyrhaeddol ar draws ystod eang o wasanaethau a gynigir gan y GIG. Mae hyn yr un mor wir am Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ag ydyw ar gyfer unrhyw un o sefydliadau'r GIG. Cyn COVID-19, roedd cynnydd mawr yn cael ei wneud o ran cydnabod manteision y celfyddydau creadigol i iechyd corfforol, iechyd meddwl ac ymdeimlad o les cyffredinol pobl mewn lleoliadau cymunedol ac ysbytai. Er enghraifft, mae ymweld ag oriel neu amgueddfa bob ychydig fisoedd yn lleihau eich risg o ddatblygu dementia hyd at 44% – ac mae'r budd hwn yn para hyd at 10 mlynedd ar ôl i chi stopio. Yn ôl Cyngor Celfyddydau Cymru yn eu Celfyddydau ac Iechyd: Adroddiad Mapio.
Yn anffodus, mae'r pandemig wedi bod yn rhwystr i rywfaint o'r gwaith yr oedd y tîm yn ei wneud o'r

ADRODDIAD BLYNYDDOL

blaen yn ei brif ofod, Oriel Hearth. Caeodd yr oriel yn anterth y pandemig, a chaeodd wardiau eu drysau i'r artistiaid a fyddai unwaith yn llenwi dyddiau eu cleifion â llawenydd, lliw a chân, a chaeodd canolfannau cymunedol hefyd.

Gyda hynny mewn golwg a'r cyd-destun cenedlaethol ynghylch cyflwr presennol sector y celfyddydau, byddai wedi bod yn hawdd i dîm y Celfyddydau dros Iechyd a Llesiant fod wedi llithro i fod yn ôl-ystyriaeth i'r Bwrdd Iechyd y mae'n ei wasanaethu a'r sefydliadau sy'n darparu cyllid i'r tîm megis Cyngor Celfyddydau Cymru ac Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro, sydd wedi bod bron yn gyfan gwbl yn canolbwyntio ar godi arian a darparu ardaloedd lloches a phrydau poeth i aelodau staff blinedig ers dechrau'r pandemig.

Diolch byth, nid dyma a ddigwyddodd ac yn ddiweddar mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi cyhoeddi ymrwymiad parhaus i ddarparu cyllid ar gyfer un o ddau Gydgysylltydd presennol y Celfyddydau mewn Iechyd yn nhîm Celfyddydau dros Iechyd a Llesiant y Bwrdd Iechyd, gyda'r Bwrdd Iechyd yn gwneud cyfraniad cyfatebol ar gyfer yr ail swydd. Mae'r tîm yn hynod ddiolchgar am y gefnogaeth barhaus i'r swyddi hyn, sy'n cael eu dal ar hyn o bryd gan Alex Staples a Melanie Wotton.

Er gwaethaf y pwysau sy'n gysylltiedig â COVID-19, mae elusen gysylltiedig Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro hefyd wedi addo cyllid parhaus yn ddiweddar tuag at nifer o brosiectau celfyddydol er mwyn i gleifion allu parhau i dderbyn budd gan y celfyddydau creadigol am y 12 mis nesaf, er drwy wahanol ffyrdd. Ond sut y gall y celfyddydau gyfrannu at ein hadferiad cymdeithasol ac, yn achos rhai cleifion, eu hadferiad llythrennol o COVID-19? A all timau bach sy'n gweithio ar lefel leol, fel yr un ym Maes Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, wneud iawn am y bwlch sydd wedi ymddangos o ganlyniad i gau theatrau ac orielau? A all y timau hyn weithredu'n effeithiol hyd yn oed tra'n sicrhau y glynir wrth fesurau fel cadw pellter corfforol?

Mae'n annhebygol y ceir ateb pendant i'r cwestiynau hyn yn y tymor byr ond mae'r rhagolygon ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn gadarnhaol. Dangoswyd bod y celfyddydau'n arbennig o fuddiol mewn meysydd fel anhwylderau niwrolegol, ymgysylltu â chleifion, datblygu plant, lleihau stigma sy'n gysylltiedig ag iechyd, lleihau effaith trawma, dementia / dirywiad gwybyddol; gellir cysylltu rhai o'r rhain â COVID.

Er mwyn ymateb i rai o'r heriau a gyflwynir gan COVID-19, mae'r Bwrdd Iechyd wedi dibynnu ar adnoddau a mewnwelediad tîm y celfyddydau ar sut y gall y celfyddydau creadigol wneud cyfraniad. Mae'r celfyddydau wedi eu gwreiddio yng nghynlluniau'r Bwrdd Iechyd Prifysgol i ymateb i'r pandemig, hyd yn oed fel rhan o'r ysbyty dros dro yn Stadiwm Principality, Ysbyty Calon y Ddraig. Yn bwysicaf na hynny efallai, mae'r celfyddydau wedi cael eu defnyddio i gryfhau lles a gwydnwch staff gofal iechyd a chleifion fel ei gilydd.

ADRODDIAD BLYNYDDOL

CWRDD Â'R TÎM

Rydym yn dîm bychan ond ymroddedig o artistiaid a charedigion y byd celf ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, pob un yn gwybod am fanteision celf i brofiad cleifion ac yn angerddol dros barhau i ddatblygu arlwy celf y bwrdd iechyd. Darllenwch fwy amdanom isod:

Simone Joslyn, Pennaeth timau yr Elusen Iechyd a'r Celfyddydau. Mae ei chefndir ym maes nyrsio iechyd meddwl wedi caniatáu iddi weld drosti'i hun yr effaith gadarnhaol y gall celf ei chael ar iechyd a llesiant pobl. Roedd hi'n un o'r arweinwyr wrth ddatblygu wardiau Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Bobl Hŷn, yr uned iechyd meddwl o'r radd flaenaf, Hafan y Coed, a'r strategaethau celfyddydol pwrpasol a oedd yn cyd-fynd â nhw.

Roedd hi hefyd yn allweddol yn natblygiad Oriel Hearth, lle unigryw i gelf gyfoes, y cyntaf o'i bath yng Nghymru. Mae'n rheoli datblygiad a thwf parhaus rhaglen gelfyddydol y bwrdd iechyd er mwyn gwella bywydau ein cleifion a'n staff gyda chelf.

Ymunodd Melanie Wotton â Thîm Celfyddydau Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro fel Rheolwr Oriel HeARTh i ddechrau ond mae bellach wedi ymgymryd â rôl Rheolwr Prosiect Celfyddydau i'r Gymuned. Mae Mel ei hun hefyd yn Artist adnabyddus gyda chefndir sy'n cynnwys celfyddyd gain, ecoleg, therapïau cyflenwol a marchnata.

Fel Rheolwr Prosiect Cymunedol, defnyddiodd ei phrofiad mewn cydweithrediadau di-rif gydag artistiaid yn y gymuned a chyda grwpiau trydydd sector i gyfoethogi rhaglen y Celfyddydau ar gyfer iechyd a llesiant, gan roi mynediad i'n cleifion yn y gymuned i'r celfyddydau yn ogystal â'r rhai yn yr ysbyty, gan ein galluogi i greu rhaglen gyfannol a chrwn i gleifion a staff.

Ymunodd Alex Staples â'r tîm fel Rheolwr Prosiect Rhaglen y Celfyddydau ac mae'n canolbwyntio'n bennaf ar ein safleoedd ysbyty a'n cleifion mewnol. Mae gan Alex gefndir mewn theatr Gerdd a bu'n gweithio yn y West End yn ogystal â thyfu i fyny gydag artist yn ei theulu agos. Mae ganddi angerdd mawr dros gelf a'r effaith gadarnhaol a gaiff ar les meddyliol a chorfforol.

Mae hi hefyd wedi bod yn glaf mewnol yn yr ysbyty am gyfnodau hir ac mae'n gwerthfawrogi'r angen am amgylchedd cadarnhaol i gynorthwyo adferiad yn yr ysbyty. Mae hyn yn rhywbeth y mae'n gweithio tuag ato ar ein holl safleoedd ysbytai, gan barhau i ddatblygu a thyfu'r rhaglen yn ein hysbytai a'u hamgylchoedd ac i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau ein cleifion a'u teuluoedd.

CWRDD Â'R TÎM

Ymunodd Molly May Lewis â thîm y Celfyddydau ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro fel y Cydlynydd Oriel newydd yn Oriel HeARTh. Mae gradd BA ganddi mewn Celf Gain ac mae wedi arddangos ei gwaith mewn orielau ledled y gwledydd hyn, mae wedi gweithio'n llawrydd i lawer o Artistiaid a Dylunwyr yng Nghaerdydd a chael ei chomisiynu gan BIP Caerdydd a'r Fro i wneud nifer o brosiectau creadigol.

Ei nod yw cynnal llwyddiant artistig yr oriel, sicrhau bod yr arddangosfeydd a'r prosiectau'n rhedeg yn esmwyth a chynnig profiad cadarnhaol a meddylgar i'r ymwelydd.

Mae Jayne Catherall yn newydd i dîm y Celfyddydau, ond mae wedi bod yn gweithio ym maes iechyd am y chwe blynedd diwethaf. Yn ystod y cyfnod hwn mae wedi gweld yr effaith enfawr y mae'r celfyddydau yn ei chael ar iechyd a lles staff, cleifion ac ymwelwyr â safleoedd ein hysbytai. Mae Jayne yn hynod falch o fod yn gweithio ar brosiect Celfyddydau a Llesiant Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a chanddi hi fydd y dasg o godi proffil y celfyddydau mewn lleoliadau gofal iechyd, gwella amgylcheddau gwaith a gwella profiad cleifion.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am y wefan hon, neu'r strategaeth gyfathrebu sy'n cyd-fynd â phrosiect celfyddydau'r bwrdd iechyd, cysylltwch â ni!

Mae Elusen Celfyddydau ac Iechyd Caerdydd a'r Fro yn falch iawn o groesawu yr Intern, Bex Betton i'r tîm. Mae gan Bex, a ddechreuodd gyda'r tîm ddechrau mis Tachwedd 2020 am 10 mis, gefndir cryf mewn codi arian, digwyddiadau a'r Celfyddydau sydd wedi'i ddatblygu o fod yn gweithio yn y sîn Gelfyddydol Gymreig. Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yw'r Bwrdd Iechyd cyntaf yng Nghymru i gefnogi Intern o Celfyddydau a Busnes Cymru o fewn eu tîm Celfyddydau.

Yn ystod ei hamser gyda'r tîm, bydd Bex yn arwain ar nifer o fentrau codi arian Celfyddydol ac yn helpu i ddatblygu a chyflawni prosiectau lle mae'r Celfyddydau'n helpu gydag iechyd meddwl a llesiant mewn amgylcheddau gofal iechyd. Mae hyn yn rhan bwysig o Strategaeth Lesiant Staff y Bwrdd Iechyd ac yn gwella profiad cleifion.

CELF YN YSTOD COVID

DARLUNIAU GAN DAN PETERSEN



Dan Peterson

Ym mis Mai 2020, comisiynwyd y darluniwr croniclo a'r artist rhyfel, Dan Peterson, gan Dîm y Celfyddydau dros Iechyd a Llesiant, gyda chymorth Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro, i gofnodi ymateb Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i COVID-19, yn benodol yn Ysbyty Calon y Ddraig, yr ysbyty maes newydd a adeiladwyd ar dir Stadiwm Principality yng Nghaerdydd. Meddai Dan Peterson, a aeth i dalaith Helmand yn Affganistan fel artist rhyfel swyddogol i Warchodlu Dragŵn y Frenhines, Y Marchlu Cymreig: "Sylweddolais fod hwn yn achlysur mor anferthol - hanes o flaen ein llygaid - bod angen ei gofnodi." Yn ystod ei gyfnod yn Ysbyty Calon y Ddraig, tynnodd Dan frasluniau a ffotograffau o'r adeilad newydd a'i staff ar waith, gan gofnodi amser cymhleth ac emosiynol mewn hanes.

Mae'r gweithiau celf gwreiddiol bellach yn byw yn Tŷ Coetir fel rhan o'r arddangosfa 'Gyda Diolch'. Mae printiau o'r gweithiau celf gwreiddiol ar werth gyda 50% o'r holl elw yn mynd tuag at yr Elusen Iechyd cronfa y Celfyddydau dros Iechyd a Llesiant, i gefnogi mentrau celfyddydol ychwanegol.

WILLIAM DEAN FORD ARTIST Y GAIR LLAFAR A BARDD



Mae William Dean Ford yn berfformiwr y gair llafar a thrwy gydweithio â Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, mae'n darparu 'Presgripsiwn Barddoniaeth' wythnosol mewn ymateb i'r ansicrwydd yr ydym i gyd yn ei wynebu oherwydd Covid 19.

Mae cerddi William yn real, y gallwch uniaethu â nhw ac yn ddyrchafol ac ers cychwyn arnyn nhw ganol mis Mawrth, maent wedi dod yn ychwanegiad wythnosol gwych i'n rhaglen ac rydym wedi derbyn llawer o sylwadau yn canmol ac yn rhannu'r gweithiau gan y gymuned dros ein llwyfannau cymdeithasol a'n gwefan.

BRIONY GOFFIN - PROSIECT YSGRIFENNU CREADIGOL

P'un a ydym yn gweithio ar y rheng flaen neu yn ein hystafell wely gefn, yn ôl pob tebyg, mae ein bywyd o ddydd i ddydd wedi ymddangos yn wahanol iawn yn ddiweddar. Roedd y prosiect ysgrifennu creadigol hwn, a grëwyd gan Briony Goffin mewn cydweithrediad ag Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro, wedi ei gomisiynu fel cyfle i gofnodi a myfyrio ar ein profiad personol o'r cyfnod clo.

Gwahoddwyd aelodau o'r cyhoedd, staff, rhieni a'u teuluoedd i anfon pytiau o'u gweithgarwch (neu ddiffyg gweithgarwch) o ddydd i ddydd gan ddefnyddio'r teitl, "Pethau rwyf wedi bod yn eu gwneud yn ystod y cyfnod clo". Gallai hyn hefyd gynnwys pethau maen nhw wedi bod yn eu gweld, eu clywed, yn sylwi arnynt, eu teimlo, yn pendroni yn eu cylch ac ati yn y cyfnod cloi.

Bwriad y gwahoddiad oedd cofnodi'r cyffredin yn ogystal â'r anghyffredin; y tyner yn ogystal â'r creulon; y dioglyd yn ogystal â'r diwyd; y garw yn ogystal â'r llachar; y difrifol yn ogystal â'r digri, a phopeth rhyngddynt. Roedden ni eisiau cymaint o wahanol leisiau a safbwyntiau â phosib i greu cofnod amlweddog o'r cyfnod clo. Nid oedd unrhyw fanylyn yn rhy fach ac roedd y prosiect yn llwyddiannus iawn.

PROJECT WEDI'I ADDASU'R GAPIAU NYRSYS GAN MOLLY MAY LEWIS O GOMISIWN Y GIG @ 70

Mewn cyfnod lle mae cymaint o bobl bellach yn gweithio gartref ac yn jyglo gofalu am eu plant, mae crefft a chadw'n greadigol yn ffordd wych o ddysgu, cadw cymhelliant ac aros yn gadarnhaol.

Creodd Molly brosiect crefft syml i unrhyw un ei wneud gartref drwy lawrlwytho templed am ddim i'w dorri allan (neu ei ddefnyddio fel stensil ar ddeunydd o'u dewis) a dilyn cyfarwyddiadau syml wrth ddefnyddio deunyddiau sy'n debygol o gael eu canfod gartref.

I ddathlu Blwyddyn Ryngwladol y Nyrs a'r Fydwraig, a phen-blwydd Florence Nightingale yn 200 oed ym mis Mai eleni, mae'r Cap Nyrsys yn symbol delfrydol i'w gael fel prosiect creadigol ar hyn o bryd. Anogwyd y rhai a gymerodd ran yn y project hwn i ychwanegu negeseuon o ddiolch i staff y GIG ar eu capiau a'u gwneud yn lliwgar ac yn gadarnhaol. Arddangoswyd hetiau addurnedig mewn arddangosfa fyfyriol, Gyda Diolch yn Oriel Hearth.

SESIYNAU SYMUD A DAWNS I GLEIFION

Bydd Dawns Rubicon yn creu fideo a gaiff ei ddefnyddio gan ffisiotherapyddion a chleifion yn ward Cennin Pedr a ward E18 yn Ysbyty Athrofaol Llandochau ac Ysbyty Dewi Sant i wella llesiant. Mae'r adrannau hyn wedi gweithio gyda Rubicon o'r blaen, ac wedi'u cefnogi gan Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro, i gyflwyno rhaglen o sesiynau Symud a Cherddoriaeth yn llwyddiannus. Bydd Rubicon yn creu sesiwn sylfaenol, 15 munud o hyd a fydd yn cael ei hwyluso gan y ffisiotherapyddion o fewn yr adrannau. Mae dawnswyr Rubicon, Anwen Davies a Sally Varrall, hefyd yn hapus i ddarparu trafodaeth fideo cyn y sesiynau i gyflwyno'r sesiwn i staff a chleifion, ond hefyd i roi arweiniad a gwybodaeth wedi'u teilwra i anghenion unigol cleifion yn y sesiwn. Prosiect yn barhad o'u gwaith parhaus gyda safleoedd Caerdydd a'r Fro.

STRAEON Y GIG YN 70 A COVID-19

Rydym yn falch iawn o gydweithio eto â Phrifysgol Manceinion i recordio straeon gan ein staff a'n cleifion i olrhain a chofnodi ar gyfer yr Archif Ddigidol Genedlaethol NHS@70, ein profiadau o argyfwng Covid-19. Ein bwriad yw sicrhau bod y rhain ar gael fel rhan o arddangosfa 'gyda diolch' yn Oriel Hearth, YALl, pan fyddwn yn gallu myfyrio ar yr amser anodd ac eithriadol hwn, a bydd y straeon hefyd yn darparu cofnod parhaol fel rhan o'r Archif Ddigidol Genedlaethol.

YSTAFELLOEDD ENFYS

Mae galwad am enfysau lliwgar a dynnwyd gan blant yn ein cymunedau lleol, i gefnogi staff drwy waith celf a negeseuon, wedi cael ymateb da. Rydym wedi'u harddangos mewn ardaloedd staff i hyrwyddo llesiant a phositifrwydd, ac i bwysleisio'r gefnogaeth barhaus i waith ein staff ysbyty yn y cyfnod anodd hwn. Yn benodol, rydym wedi'u gosod yn ein dwy Hafan Staff yn Ysbyty Athrofaol Cymru ac Ysbyty Athrofaol Llandochau.

Byddwn yn parhau i dderbyn y lluniau hyn fel ffordd o annog plant gartref i gadw'n greadigol a pharhau i godi hwyliau staff y GIG drwy waith celf a negeseuon cefnogol.

DAMIAN HIRST

Ym mis Mai 2020, creodd Damien Hirst Butterfly Rainbows i ddangos cefnogaeth i'r GIG yn ystod argyfwng y Coronafeirws. Mae'r gwaith yn cynnwys bandiau o adenydd pili-pala lliw, un o fotifau mwyaf adnabyddus yr artist.

Cynhyrchwyd argraffiad cyfyngedig o'r gwaith gyda'r holl elw yn mynd i'r NHS Charities Together, gan godi cyfanswm o £1,508,172. Dywedodd Damien Hirst: "Roeddwn i eisiau gwneud rhywbeth i dalu teyrnged i'r gwaith gwych mae staff y GIG yn ei wneud mewn ysbytai ledled y wlad. Mae'r enfys yn arwydd o obaith ac rwy'n credu ei bod yn wych bod rhieni a phlant yn creu eu fersiwn eu hunain ac yn eu codi yn ffenestri eu cartrefi."

Rydym yn falch o arddangos print o'r gwaith hwn ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Mae gweithredoedd fel hyn yn codi arian y mae mawr ei angen i wneud bywydau ein cleifion, eu teuluoedd a'n staff yn well, ond mae hyn hefyd yn rhoi cefnogaeth gref i'n rhaglen Celf at Iechyd a Lles drwy ein helpu i hybu iechyd a llesiant y rhai sy'n defnyddio ein gwasanaethau.

HARMONI CYMRU
SEIBIANNAU CREADIGOL

HARMONI CYMRU

Yn ystod y cyfnod clo, comisiynodd tîm y Celfyddydau therapyddion cerddoriaeth o Harmoni Cymru i gynnig sesiynau 'Seibiant Creadigol' i staff.

Cynhaliwyd y sesiynau awr o hyd bob Dydd Mawrth yn Lakeside ar safle Ysbyty Athrofaol Cymru. Roedd y sesiynau cerddorol yn rhoi cyfle i staff, cleifion a'u teuluoedd gymryd peth amser allan mewn amgylchedd tawel. Mae'r sesiynau wedi bod yn boblogaidd iawn ac wedi eu mynychu'n dda. Roedd pawb yn gwerthfawrogi'r cyfle i ddianc rhag natur glinigol yr amgylchedd a gwerthfawrogi'r gerddoriaeth wych.

NATHAN WYBURN

Buom yn gweithio'n agos gyda'r artist Nathan Wyburn gan gomisiynu 'GIG Gyda Diolch' i gael ei argraffu ar faneri a phosteri ar raddfa fawr ar draws ein safleoedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Mae 'GIG Gyda Diolch' yn cynnwys dros 200 o hunluniau o weithwyr Staff y GIG a anfonodd eu ffotograffau i Nathan ar ôl ei alwad ar y cyfryngau cymdeithasol. Gyda'r hunluniau hyn, creodd Nathan y gludwaith portread digidol hwn o aelod staff yn gwisgo masg gyda'r geiriau, Diolch, oddi tano.

Gall aelodau staff yr ysbyty weld y gweithiau celf mawr hyn pan fyddant yn mynd i safleoedd ysbytai ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ac maent yn gweithredu fel neges o ddiolch a gwerthfawrogiad i'n harwyr GIG diwyd. Gwelwyd y gwaith celf hwn yn genedlaethol dros y cyfryngau cymdeithasol ac ar y newyddion ac mae i'w weld ar y fideo rhagarweiniol ar gyfer This Morning.

Nathan Wyburn

ORIEL HEARTH

Oriel Hearth yw ein prif ofod o hyd ar gyfer arddangos celf yn YALl, ac nid yw'r ffordd y mae'r oriel wedi parhau'n hanfodol i raglen y celfyddydau wedi newid drwy gydol y flwyddyn hon, er gwaethaf yr heriau.

Ar ddechrau 2020 cynhaliodd yr oriel nifer o arddangosfeydd atyniadol.

> *Lle bynnag y bo modd, rwy'n oedi ac yn cymryd 5 munud i edrych o amgylch yr oriel yn YALl ac mae'r creadigrwydd yno bob amser yn creu argraff arnaf, mae'n gyfle mor dda i oedi a chymryd hoe a bod yn dawel yn yr holl amseroedd rhyfedd hyn.*

ORIEL YR AELWYD
HEARTH GALLERY

NATUR MEWN CELF

ARDDANGOSFA ORIEL HEARTH: 27 CHWEFROR - 18 MAWRTH

Arddangosfa grŵp yw Natur mewn Celf sy'n dwyn ynghyd gwaith wyth o artistiaid unigol sydd oll wedi'u hysbrydoli gan brydferthwch natur yng Nghymru. Yn gweithio mewn arddulliau a genres bywiog ac amrywiol, mae artistiaid yr arddangosfa hon yn gweithio ar draws ystod o ddisgyblaethau sy'n cynnwys peintio, arlunio, ffotograffiaeth a cerameg. Mae'r gwaith celf yn yr arddangosfa hon yn adrodd straeon am natur, lleoedd ac enydau yng Nghymru, gan agor ein llygaid i gymhlethdod a harddwch y byd naturiol. Yn y gweithiau celf hyn, rydym yn gweld y lliwiau, y gwead a'r siapiau sydd oll yn hardd wrth adlewyrchu byd natur.

Artistiaid/ Cydweithwyr:

Valerie James, Nichola Hope, Sarah Hope, Vicky Washbourne, Kate Bell, Carys Evans, Mike James, Kevin Sinnott

Sylwadau o'r arddangosfa:

"Casgliad gwirioneddol hyfryd. A dyna syniad gwych i gael yr oriel hon lle mae hi. Arbennig!"

"Dyma'r rhan fwyaf rhyfeddol o ran wyneb cyhoeddus unrhyw ysbyty yr wyf erioed wedi bod iddo. Da iawn! Boed iddo ffynnu am flynyddoedd lawer."

"Dwi wrth fy modd yn gweld y gwaith celf yma, mae rhywbeth newydd bob tro dwi yma."

PLANED LAS

ARDDANGOSFA PLAZA HEARTH 8 IONAWR - 2 CHWEFROR

Arddangosfa unigol gan yr Artist Amy Salisbury

Mae Amy'n arbrofi gyda phaent i fynegi'r lliwiau a'r symudiadau a ysbrydolwyd gan luniau NASA a sinematograffi cyfres Blue Planet y BBC. Rwy'n ceisio nid yn unig amlygu prydferthwch y blaned, ond hefyd i geisio cyfleu materion megis rhewlifau'n toddi a chynefinoedd cras.

Mae gan bob darn lawer o symudiad a manylder yn sgil arllwys y paent ar i'r arwyneb gwaith. Mae hyn yn caniatáu i'r gwyliwr edrych ar y darnau yn agos ac yna mwynhau egni cyffredinol y darn wrth sefyll ymhellach yn ôl.

LLE I GRWYDRO

ARDDANGOSFA PLAZA HEARTH - 4 CHWEFROR - 1 MAWRTH

Mae Gofod i Grwydro yn arddangosfa o waith celf gan Cerys Knighton. Gan ddefnyddio techneg pwyntilio yn bennaf gyda phen ac inc, mae'r darnau wedi'u rendro drwy osod miloedd o dotiau inc unigol yn sensitif mewn haenau i adeiladu gweadau a delweddau. Mae'r gwaith yn archwilio canfyddiadau ymchwil PhD Cerys i gynrychiolaethau o salwch iselder manig, yn ogystal â thynnu ar ei phrofiad personol o anhwylder deubegynol.

Mae Cerys Knighton yn artist 25 oed o Gymru ac yn fyfyriwr PhD yn y dyniaethau meddygol a ariennir gan Bartneriaeth Hyfforddiant Doethurol De a Gorllewin Lloegr a Chymru. Gan weithio gyda deunyddiau Cymraeg a Saesneg, mae traethawd PhD Cerys yn archwilio cynrychiolaethau o salwch iselder manig o 1830-1930 drwy ddadansoddi nodiadau achosion meddygol archifol a thestunau llenyddol ar yr un pryd. Mae ei gwaith yn archwilio'r datblygiad mewn categorïau diagnostig, triniaeth seiciatrig, a chanfyddiadau cleifion. Drwy gyfuno gwaith celf a dynnwyd o'r ymchwil hwn ac o brofiadau Cerys ei hun o salwch deubegynol, mae ei gwaith yn creu gofod myfyrio: gan edrych ar sut mae categorïau a chynrychiolaethau meddygol wedi esblygu i fyfyrio ar ein canfyddiadau ein hunain o salwch meddwl heddiw.

CARIAD AT STÊM

ARDDANGOSFA PLAZA HEARTH - 8 IONAWR - 2 CHWEFROR

Mae Cariad at Stêm yn arddangosfa unigol o ffotograffau gan Stephen Thomas.

Nid dim ond "chwarae trenau" mo cadwraeth rheilffyrdd. Nid dim ond y gwrthrychau ffisegol sydd wedi'u hadfer (ac mewn rhai achosion, wedi eu hadeiladu'n newydd sbon) ond mae'r sgiliau a'r crefftau sydd eu hangen i greu, gweithredu a chynnal y peiriannau hyn o'r oes a fu wedi'u trosglwyddo i genedlaethau a aned ymhell ar ôl i'r locomotifau ager olaf gael eu defnyddio'n ddyddiol. Mae economïau lleol hefyd wedi cael budd enfawr o fod â "rheilffordd treftadaeth" yn rhan ohonyn wrth i filoedd o ymwelwyr gael eu denu i ardal na fyddent, efallai, yn ymweld â hi fel arall.

SAM BURNS

ARDDANGOSFA GORIDOR - RHAGFYR 2019 - PARHAUS

Rydym yn falch iawn o gael arddangos gwaith Sam Burns, gan ddod â lliwiau i goridor ein Hysbyty. Mae Sam yn aelod staff ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ac yn ystod adegau caled, daeth o hyd i'w gariad at greu celf. Mae bellach yn creu bob dydd, ac rydym yn falch iawn fod Sam wedi cynnig arddangos ei waith i gleifion, staff ac ymwelwyr eraill ei fwynhau.

ORIEL YR AELWYD
HEARTH GALLERY

ORIEL YR HEARTH

Yn ystod pandemig COVID-19, nid oedd Oriel Hearth bob amser yn gallu bod ar agor i ymwelwyr. Fodd bynnag, rydym wedi gallu agor y gofod ffisegol yn ddiogel eto ac rydym mor falch y gall cleifion a staff fwynhau'r arddangosfeydd unwaith yn rhagor.

Roeddem yn falch iawn o ailagor Oriel Hearth yn YALl gyda'r arddangosfa 'Gyda Diolch'. Roedd hon yn arddangosfa ysbrydoledig a hyfryd a oedd yn canolbwyntio ar bwysigrwydd Celf i'n Hiechyd a'n Llesiant ac a oedd yn myfyrio ar ymroddiad parhaus ein gweithwyr GIG.

Yn ystod Covid-19, bu newid diwylliannol i'r ffordd rydyn ni'n ystyried celf a chreadigrwydd yn ein cymuned. Mae llawer o bobl wedi meithrin eu cyneddfau artistig eu hunain yn ystod y cyfnod clo ac mae eraill wedi defnyddio'r amser i ddysgu sgiliau creadigol newydd neu ddefnyddio creadigrwydd i gyfleu diolchgarwch mawr i'r bobl o'n cwmpas.

Fel tîm Celf, credwn yn gryf yng ngallu'r Celfyddydau Creadigol i wella bywydau bob dydd a lles ein staff, ein cleifion a'n hymwelwyr ac felly mae'n bleser gennym ailagor yr Oriel eto gyda'r arddangosfa adfyfyriol hon.

Roedd yr arddangosfa hon yn cynnwys casgliad gwych o baentiadau, darluniau, ffotograffau a thecstilau wedi eu creu drwy brojectau ac ymatebion celf cymunedol, neu ddarnau a roddwyd neu a gomisiynwyd, a phrojectau ysgol ac mae modd ei weld o hyd yn ein Oriel Rithiol.

ORIEL YR AELWYD
HEARTH GALLERY
virtual

ORIEL RITHIOL HEARTH

Er ein bod wrth ein bodd o alu ailagor Oriel Hearth, rhaid inni hefyd roi ystyriaeth i'r rheini na fyddant yn gallu ymweld â hi'n bersonol, ac i'r perwyl hwnnw datblygwyd a lansiwyd Oriel Rithwir Hearth gennym. Mae Oriel Rithwir Hearth yn lle newydd, ar-lein i bobl fwynhau'r darnau gwych a gyfrannwyd gan ein rhwydwaith o artistiaid a hynny o ddiogelwch a chysur eu cartrefi eu hunain. Mae'r gofod rhithiol hefyd yn gweithio i wneud yr oriel hyd yn oed yn fwy cynhwysol gan ei bod yn hygyrch i gleifion mewnol mewn ysbytai mewn safleoedd ar wahân i Ysbyty Athrofaol Llandochau yn ogystal â'r rhai nad ydynt yn gallu gadael eu wardiau. Rydym yn cynnal yr oriel rithwir ar lwyfan ar-lein sy'n caniatáu i ddefnyddwyr symud o gwmpas gofod 3 dimensiwn â rheolaeth lawn. Mae cyfarwyddiadau ar sut i symud o gwmpas i'w cael bob tro y byddwch yn mynd i'r gofod rhithwir.

Ein harddangosfa rithwir gyntaf oedd ein Harddangosfa Haf 2020, a oedd yn cynnwys amrywiaeth o ddarnau gan ddeuddeg artist gydag amrywiaeth o baentiadau, lluniadau, ffotograffiaeth a phrintiadau ac mae'n dal i fod ar gael i'w gweld drwy'r oriel rithwir
Mae rhaglen lawn o arddangosfeydd wedi'u cynllunio ar gyfer Oriel Rhithwir Hearth, a bydd pob un ohonynt ar gael drwy'r dudalen hon ar ein gwefan.

ADRODDIAD BLYNYDDOL

YSBYTY ATHROFAOL LLANDOCHAU

ADFYFYRIO CADARNHAOL AR GYFER LLESIANT STAFF - GOSODIAD CREADIGOL

Mewn cydweithrediad â Chydlynydd Gweithgareddau'r Celfyddydau Natalie Mcculloch ar Ward E8 Ysbyty Athrofaol Llandochau, mae tîm y Celfyddydau dros Iechyd a Llesiant yn gwahodd Staff y GIG i ysgrifennu darn myfyriol byr am y profiadau cadarnhaol y maent wedi'u cael yn ystod cyfnod ansicr Covid-19. Ymhlith llawer o dristwch ac ansicrwydd, mae yna hefyd gyfnodau o fywyd bob dydd yr ydym wedi gallu eu mwynhau a'u gwerthfawrogi'n llawer mwy nag yr arferem.

Byddwn yn casglu ymatebion o bob un o safleoedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro drwy ein gwefan a byddwn yn defnyddio'r ymatebion i greu gosodiad celf parhaus, wedi'i leoli yn y Gofod Plaza cynllun agored yn Ysbyty Athrofaol Llandochau.

Bydd yr ymatebion ysgrifenedig yn cael eu hysgrifennu â llaw ar ddarnau lliwgar o bapur a'u rhoi at y waliau, gan greu enfys ar raddfa fawr yn y pen draw ar waliau'r gofod cerdded gan greu amgylchedd sy'n plesio ac yn codi'r galon yn weledol.

I gymryd rhan ac i anfon eich negeseuon a'ch ymatebion cadarnhaol atom, dilynwch y ddolen isod. Bydd eich ymatebion yn helpu i daflu goleuni ar yr agweddau cadarnhaol ar yr adeg ansicr hwn.

ADRAN MEDDYGAETH NIWCLEAR

Rydym yn ffodus bod gennym berthynas gadarnhaol barhaus â llawer o Artistiaid a sefydliadau celf, y mae llawer ohonynt yn rhoi eu gwaith i ni er mwyn ein helpu i oleuo ein lleoedd i gleifion a staff. Enghraifft wych yw'r adran meddygaeth Niwclear sydd wedi'i thrawsnewid drwy ychwanegu rhai darnau gwreiddiol o waith celf.

"Mae'r hyn a fu gynt yn waliau moel a oedd yn creu lleoliad clinigol iawn bellach yn amgylchedd cysurus. Mae'r darnau niferus o waith celf a gafodd eu rhoi i ni wedi caniatáu i bob cornel o'r adran elwa ar y ddihangfa weledol. Oherwydd haelioni enfawr aelodau WAA, roeddem yn gallu ymestyn hyn i rannau eraill Radioleg yn YALl yn ogystal â'r adran Meddygaeth Niwclear yn Ysbyty Athrofaol Cymru a gafodd ei hadnewyddu ar yr un pryd. Rydym yn aml yn dod ar draws cleifion sy'n bryderus am orfod wynebu dyfodol ansicr yn ogystal â'r rhai y mae angen tynnu eu sylw oddi ar eu triniaeth. Mae ychwanegu'r golygfeydd deniadol a'r creadigaethau hudolus hyn wedi cynnig llwyfan ychwanegol i gleifion a staff sgwrsio ac rydym eisoes wedi derbyn llawer o sylwadau a chwestiynau am ddarnau unigol. Hoffwn ddiolch o galon i'r WAA, dim ond eu haelioni anhygoel sy'n drech na'u sgiliau creadigol."

Nicola O'Callaghan, Uwch Radiograffydd

ADRODDIAD BLYNYDDOL

AI GWYDDONIAETH NEU GELF?

ADBORTH GAN FOUR IN FOUR

Yn 2020 cyfunodd Tamsin Griffiths a Paul Whittaker (Four in Four) eu lleisiau artistig i greu arddangosfa weledol aml-ddisgyblaeth, Ai Gwyddoniaeth neu Gelf? yn Oriel Hearth yn Ysbyty Llandochau, Caerdydd. Roedd yr arddangosfa'n cynnwys un ar bymtheg o ddarnau gwreiddiol o waith yn seiliedig ar eu profiadau fel defnyddwyr gwasanaeth i archwilio'r proc - ai Gwyddoniaeth neu'n Gelf yw Seiciatreg? – ac i ymhelaethu ar sut y gall celfyddydau creadigol helpu gyda chyfathrebu, a chyda'r broses wella ac adfer i gleifion.

Rhyfeddwyd y staff meddygol gan yr arddangosfa. Dwedodd Dr Mohammed Khan, Seiciatrydd ar y ward, ei fod bellach, o ganlyniad i'r arddangosfa, bellach yn cynnwys y cwestiwn yn ei asesiad cleifion yn ogystal â gwneud newidiadau eraill i'w arfer gyda chleifion.

Pwrpas y prosiect oedd dysgu sut i addasu arfer Four in Four i ddiwallu anghenion cleifion a staff ffibrosis systig (FfS) yn yr ysbyty ac yn y gymuned fel y gallent gael mynediad i'r celfyddydau; yn ogystal ag archwilio a datblygu ffyrdd o ffitio gweithgarwch celfyddydol priodol o fewn gweithrediadau'r ward.

"Mae byw gyda Ffibrosis Systig (FfS) ac anhwylder Deubegynol yn golygu fy mod yn treulio cyfnodau hir o amser yn yr ysbyty, bob chwe wythnos mae'n rhaid i mi fynd yno i gael triniaeth pan mai'r cyfan rydw i ei eisiau yw bod gartref gyda fy nheulu a chadw fy hun yn gall gyda Taekwondo... ond mae'n anghenraid. Pan gyfarfûm â Tamsin a Paul roeddwn yn cael diwrnod gwael iawn ac yn teimlo'n isel iawn. Erbyn iddyn nhw adael roeddwn i'n teimlo gymaint gwell. Dydw i erioed wedi chwerthin cymaint yn fy mywyd. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn stigmateiddio pobl â FfS fel pobl ddiog ac mae'n creu embaras gan nad yw hynny'n wir - rydym ond wedi ymlâdd. Pan ddaeth Paul a Tamsin i wneud y prosiect Caredigrwydd-Dynol roedd mor braf cael pobl i siarad â nhw a gwrando ar yr hyn oedd gennyf i'w ddweud a'i fynegi. Gan eu bod mor agored ac anfeirniadol, roeddwn yn gallu cyfathrebu pwy ydw i a fy amgylchiadau ac roeddwn i'n teimlo eu bod wir yn deall FfS a'm cyflwr deubegynol. Roeddwn i'n teimlo fy mod i'n gallu mynegi, dadlwytho, gadael i'n dychymyg fynd i bob math o leoedd, chwerthin a siarad am y pethau rwyf wedi bod drwyddynt.

Byddwn yn ymgysylltu ag unrhyw broject Celfyddydau c Iechyd y mae Tamsin a Paul yn ei wneud yn y dyfodol i mewn ac allan o amgylchedd ysbyty." ***Claf sy'n byw gyda FfS ac sy'n Ddeubegynol.***

ADRODDIAD BLYNYDDOL

YSBYTY ATHROFAOL LLANDOCHAU

SBRINT TELYNAU: RENGARIFIC

Gwnaethom ymateb i alwad Y Lab/NESTA ar ddechrau'r cyfnod clo i gymryd rhan mewn prosiect celfyddydau ym myd iechyd ledled Cymru a oedd yn canolbwyntio ar ddarparu ymyriadau celfyddydol yn rhithwir o ganlyniad i argyfwng COVID-19. Gan fod llawer o'n prosiectau ysbytai a chymunedol parhaus ac arfaethedig wedi'u gohirio, roedd yr angen am gefnogaeth barhaus drwy'r celfyddydau creadigol i garfannau cleifion sy'n agored i niwed yn ystod y cyfnod clo eisoes wedi ei nodi. Roedd y prosiect amserol Y Lab yn cynnig cyfle delfrydol i archwilio'r modd y darperir y celfyddydau creadigol mewn ffyrdd newydd, ac mewn cydweithrediad â phobl sy'n gweithio mewn amrywiaeth o feysydd creadigol ac o fewn sector y Celfyddydau ym myd Iechyd.

Cynlluniom a chyflwynom ni ymyriad celfyddydol rhithwir arloesol mewn cydweithrediad â'r Uned Dydd Niwroseiciatreg yn Hafan y Coed, a hefyd i ddau grŵp o gyn-filwyr ac aelodau o'r gymuned yn Oriel y Cyn-filwyr a'r Cymuned (VC) yn Sir Benfro. Cynigiodd Rengarific gyfle i drafod teimladau, meddyliau ac ysbrydoliaeth ac i adeiladu cysylltedd a theimladau o fod gyda'n gilydd yn ystod cyfnod heriol, a mwynhaodd pawb yn fawr.

Sylwadau gan gyfranogwyr, Niwroseiciatreg:

"Oherwydd y grŵp ro'n i'n mynd allan fwy ac yn rhyngweithio gyda pethau'n fwy yn ystod y cyfnod clo a gododd lawer ar fy hwyliau, yn lle clywed am y coronafeirws yn barhaus, sy'n fwrn, felly roedd hynny'n rhywbeth enfawr. Dydw i erioed wedi diddori mewn celfyddyd oherwydd y cyfan a olygai drwy'r ysgol roedd tynnu llun ac nid dyna fy nghryfder i ond gyda'r hyn rydym wnaed yma ehangwyd ar hynny i mi a rhoddodd gymaint mwy o lwybrau i mi eu dilyn a oedd yn tynnu'r straen allan ohono ac yn caniatáu i mi fod yn fwy creadigol (clai/paent/ffotograffau) a wnaeth i mi fod yn eithaf hoff o gelfyddyd yn y pen draw ac y byddaf yn parhau i fod.

Adborth gan Aelodau Staff, yr Adran Niwroseiciatreg:

''Mae'r prosiect celf Rengarific wedi bod yn brofiad cadarnhaol iawn ar gyfer y rhai a fynychodd ac i'r staff yn y gwasanaeth Niwroseiciatreg. Cyn y cyfnod clo cynhaliom amrywiaeth o grwpiau cymorth wythnosol gan gynnwys grŵp prosiect creadigol. Yn anochel daeth y cyfnod clo â hyn i ben ynghyd â rhai o'r buddion a ddaeth gydag ef h.y. cyfle ar gyfer cefnogaeth gan gymheiriaid, cysylltiad cymdeithasol, symbyliad gwybyddol yn ogystal â meddwl ac archwilio yn greadigol."

ADRODDIAD BLYNYDDOL

CANFOD PROSIECT Y CELFYDDYDAU YM MYD IECHYD

ADRAN THERAPI LLAW YALL

Gweithiodd aelodau staff Therapi Galwedigaethol, cleifion allanol Therapi Llaw yn Ysbyty Athrofaol Llandochau yn agos gyda'r artist Robert Kennedy i ddylunio dynodi llwybr creadigol ar gyfer eu hadran mewn prosiect a gefnogwyd gan Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro.

Helen Petherick, Therapi Galwedigaethol:

'Gan ddefnyddio Offeryn Asesu Amgylcheddol Cronfa Kings, nodwyd yr angen i wella'r ffordd y mae'r adran yn dynodi llwybrau a'i hymddangosiad. Buom yn gweithio fel tîm yn datblygu'r math o arwyddion sydd eu hangen, gan ystyried anghenion ein cleifion. Cytunwyd y byddai cynrychiolaeth weledol yn ddefnyddiol a sefydlwyd datblygu "Dwylo i Arwain y Ffordd".

Gyda chefnogaeth gan Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro roeddem yn gallu gweithio gyda'r artist Robert Kennedy, a roddodd gyngor, anogaeth ac amynedd drwy gydol y broses, a gwerthfawrogwyd hyn yn fawr. Roedd y profiad o gydweithio mewn partneriaeth â Thîm y Celfyddydau a Robert yn unigryw ac yn fenter hynod bleserus. Mae wedi arwain at ganlyniad ardderchog i gleifion, staff a phawb a gymerodd ran yn y broses."

Robert Kennedy:

'Cydweithiodd aelodau staff ar bob cam o'r prosiect, gan gynnwys trafodaethau ynghylch y ffordd orau o gyfeirio cleifion yn glir at Ffisiotherapi Dwylo ac ymgorffori delweddau ystyrlon hawdd eu darllen. Mae silwetau o ddwylo aelodau'r staff i'w gweld yn y logos arwain ar gyfer y wal a'r sticeri wedi eu brandio. Roedd y prosiect hwn yn ofyn mawr ar ben dyletswyddau rheolaidd y staff, ond yn sicr maent wedi bywiogi ac egluro'n well y maes y maent yn gweithio ynddo. Roedd yn anrhydedd ac yn bleser gweithio gyda'r adran".

Mae Robert Kennedy wedi gweithio fel artist ers 1984 drwy brosiectau cydweithredol, cefnogol a chymunedol mewn amrywiaeth o ddeunyddiau a chyfryngau, gan greu gwaith celf ar gyfer mannau cyhoeddus a thu mewn i adeiladau.

ADRODDIAD BLYNYDDOL

DAWNS RUBICON

Mae partneriaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro gyda Dawns Rubicon, sy'n cael ei ariannu Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro, wedi bod yn rhedeg ers nifer o flynyddoedd ac mae'n rhoi cyfle i gleifion hŷn gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol hwyliog i wella eu hiechyd a'u llesiant. Mae llawer o gleifion mewn perygl o ddirywiad corfforol a meddyliol tra byddant yn yr ysbyty ac mae wedi'i ddogfennu'n dda y gall cân a dawns helpu i wella eu hwyliau tra'n eu hannog i symud. Arweiniwyd y prosiect uchel ei glod gan y tîm amlddisgyblaethol yn yr uned Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Bobl Hŷn, mewn partneriaeth â Dawns Rubicon, ac mae wedi bod yn hynod lwyddiannus gyda chanlyniadau cleifion yn cael eu monitro'n ofalus drwy ddull o'r enw mapio gofal dementia. Cyn pandemig COVID-19, cynhaliwyd y grwpiau mewn wardiau ac unedau ar draws y Bwrdd Iechyd Prifysgol a hefyd mewn lleoliadau cymunedol.

Nawr, er mwyn sicrhau parhad gwasanaeth, mae'r sesiynau wedi cael eu cynnal yn rhithiol wrth i Dawns Rubicon gynhyrchu cyfres o fideos i'w defnyddio ar y wardiau yn ogystal â gwefan adsefydlu'r Bwrdd Iechyd, http://www.keepingmewell.com

Mae effaith gadarnhaol y sesiynau'n parhau wrth iddynt roi cyfle i gleifion ryngweithio a dawnsio gyda'i gilydd, er bod hynny mewn amgylchedd sy'n ddiogel rhag COVID. Mae cyllid gan Celfyddydau a Busnes Cymru wedi golygu bod y rhaglen waith hanfodol hon wedi gallu parhau. Mae partneriaeth a llwyddiant y prosiect wedi'u cydnabod gan nifer o sefydliadau celfyddydol o fri, y mwyaf nodedig oedd Gwobrau diweddar Celf a Busnes Cymru 2020 lle enillodd y bartneriaeth hon wobr fawreddog yn y seremoni a gynhaliwyd yn rhithiol Ddydd Gwener 9 Hydref gyda chynulleidfa ar-lein o gannoedd o westeion o bob cwr o'r byd.

> Dywedodd Kathryn Williams, Cyfarwyddwr Dawns Rubicon, "Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ac Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro yn gefnogwyr ymroddedig i Raglen Dawns ym Myd Iechyd Rubicon, ac mae hyn wedi gweld y bartneriaeth rhyngom yn dyfnhau dros y blynyddoedd. Mae'n wych gweld sut mae cleifion wedi elwa'n wirioneddol drwy gymryd rhan yn ein gweithgareddau dawns ac mae cydweithio wedi cyfrannu'n sylweddol at gynaliadwyedd yr agwedd bwysig hon ar waith Rubicon."

RUBICON DANCE

ADRODDIAD BLYNYDDOL

YSBYTY'R BARRI

GOFOD ARDDANGOS NEWYDD

Ym mis Chwefror 2020 crëwyd man arddangos newydd gennym yn Ysbyty'r Barri i arddangos celf a grëwyd gan artistiaid lleol, gan roi cyfle i staff, cleifion ac ymwelwyr gymryd seibiant ac ymlacio. Mae ein harddangosfa gyntaf yn cynnwys gwaith gan Artistiaid Bro Morgannwg (ABM).

Wedi'i sefydlu ym 1997, nod ABM yw creu mwy o ymwybyddiaeth a hygyrchedd ar gyfer y celfyddydau gweledol drwy arddangosfeydd, stiwdios agored, gweithgareddau elusennol a digwyddiadau cymunedol. Mae aelodau'r grŵp yn byw ar draws y Fro ac yn gweithio mewn amrywiaeth o wahanol gyfryngau celf gan gynnwys paentio Celf Gain, gwneud printiau, cerfluniau, ffotograffiaeth, tecstilau, cerameg a cherfluniau gwifren.

SESIYNAU HEL ATGOFION: WARD SAM DAVIES

Dechreuodd y sesiynau Cerddoriaeth er Iechyd a Llesiant ar Ward Sam Davies yn Ysbyty'r Barri ym mis Medi 2016 a hwyluswyd i ddechrau gan yr Ymarferwyr Creadigol sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn, Katja Stiller a Ruth Bradshaw. Mae llawer o'r cleifion ar y ward yn dioddef o ddementia. Ers 2017 hyd at y presennol mae'r sesiynau hyn wedi parhau i ddod â'r pleser o ganu'r hen ganeuon i gannoedd o gleifion ar y ward gyda sesiynau cerddoriaeth wythnosol. Dangoswyd bod cerddoriaeth yn gwella hwyliau, y cof ac ansawdd bywyd cyffredinol pobl sy'n byw gyda dementia.

Ers y pandemig mae Ruth wedi addasu'r sesiynau cerddoriaeth y mae hi bellach yn eu hwyluso yn rhithiol. Mae cleifion yn defnyddio offerynnau taro llaw i ymuno â'r gerddoriaeth y mae'n ei chwarae ar wahanol offerynnau ac fe'u hanogir nhw hefyd i wneud rhai ymarferion symud ysgafn i gerddoriaeth.

Mae gan y staff ar Ward Sam Davies adborth anhygoel ar gyfer y sesiynau hyn,

'Mae'r gwasanaeth hwn yn amhrisiadwy i iechyd meddwl a lles fy nghleifion. Mae llawer o'n cleifion oedrannus, eiddil wedi bod yn yr ysbyty am gyfnodau hir a gallant ddioddef o orbryder ac yn isel eu hwyliau. Nodaf effaith gadarnhaol iawn cerddoriaeth ar gyfer iechyd a llesiant, gan ddod â phobl at ei gilydd am gyfnod byr a chaniatáu iddynt ryngweithio â'i gilydd. I'n cleifion dementia, sydd â dulliau cyfyngedig iawn o gyfathrebu, mae cerddoriaeth o fudd clinigol enfawr.'

Dr Lisa Beynon

ADRODDIAD BLYNYDDOL

YSBYTY BRENHINOL CAERDYDD

PRIDE

Comisiynon ni Nathan Wyburn i greu gwaith celf arbennig i ddathlu Pride, a chytunodd Gareth Thomas i fod yn destun y paentiad i gydnabod ei berthynas â'r Clinig Iechyd Rhywiol yn Ysbyty Brenhinol Caerdydd

Ym mis Medi 2019, cyhoeddodd Gareth ei fod yn HIV positif gyda statws anweladwy, sy'n golygu nad yw'n heintus. Yn dilyn ei ddiagnosis, mae Gareth wedi derbyn triniaeth a chwnsela rheolaidd gan yr Adran Iechyd Rhywiol yn Ysbyty Brenhinol Caerdydd ac mae'n canmol tîm y clinig am eu gofal a'u tosturi, ac am ei helpu drwy gyfnod mor anodd yn ei fywyd, ei alluogi i ddod i delerau â'i ddiagnosis a'i annog i edrych ymlaen at y dyfodol gyda balchder.

Dywedodd Rachel Drayton, Cyfarwyddwr Clinigol yr Adran Iechyd Rhywiol:

"Mae'n wych gweld Gareth yn gwneud cystal. Mae e'n gymaint o fodel rôl gwych i lawer, gan ddefnyddio ei statws proffesiynol fel llwyfan i hyrwyddo materion sy'n agos ato, fel cydraddoldeb LGBTQ+, iechyd meddwl a chodi ymwybyddiaeth am HIV. Rydym yn gobeithio y bydd arddangos y gwaith celf hwn yn ysbrydoli eraill i symud ymlaen gyda chryfder a gobaith ar gyfer y dyfodol."

ADRODDIAD BLYNYDDOL

GWASANAETH ANHWYLDERAU BWYTA I OEDOLION

Comisiynwyd Katja gennym i ailgynllunio'r wefan ar gyfer y Gwasanaeth Anhwylderau Bwyta i Oedolion (Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro) gyda chyfranogwyr sy'n ddefnyddwyr gwasanaeth profiadol a ddechreuodd ddechrau mis Mawrth. Er nad ydym yn ariannu'r wefan ei hun, rydym yn darparu cyllid ar gyfer y sesiynau hyn a'r cynnwys creadigol ar y wefan.

Ar adegau o argyfwng mae llawer ohonom yn teimlo'n ddi-rym ac yn emosiynol. Mae'r gweithdai'n rhoi cyfle am brofiad a rennir, a lle i archwilio a phrosesu'r sefyllfa yr ydym ynddi, i gamu'n ôl ac adennill rhywfaint o sefydlogrwydd. Rydym yn defnyddio dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, nad yw'n barnu, yn gofyn cwestiynau agored, sut mae'r cyfranogwyr yn teimlo ac yn annog eu mewnbwn drwy gydol y prosiect. Rydym yn mynd ati i wrando, ymateb i unrhyw ddigwyddiad neu gais, dathlu cyflawniadau creadigol ac atgoffa ein gilydd o'n cryfderau a'n mecanweithiau ymdopi cadarnhaol. Ar ôl archwiliad cychwynnol, rydym yn cynnig myfyrdod ymwybyddiaeth ofalgar neu weithgaredd ymlacio pum munud, ac yna ysgrifennu creadigol.

Mae'r profiad a rennir o'r cyfnod clo wedi dod â'r grŵp yn nes at ei gilydd.

Mae'r pandemig hwn yn ddigynsail ac wedi creu ofn, mae llawer yn cael trafferth cysgu ac yn teimlo dan straen, mae cymryd rheolaeth dros y broses greadigol wedi cynyddu hyder a hunan-barch y cyfranogwr ac wedi rhoi ffocws ystyrlon i bob un ohonom. Mae pob un o'r cyfranogwyr yn deall sut beth yw byw gydag anhwylder bwyta. Mae'r gwaith y maent yn ei greu yn graff ac o safon uchel iawn a bydd yn estyn llaw allan i lawer sydd am gymorth. Rydym yn edrych ymlaen at lansio'r wefan ac arddangos y gwaith i nodi wythnos ymwybyddiaeth anhwylderau bwyta ym mis Mawrth 2021.

Nid y pwysau,

ond y meddwl.

ARSYLWADAU ALLWEDDOL

Rwyf wedi gweld y grŵp hwn mor gymwynasgar yn enwedig yn ystod y cyfnod clo gan ei fod yn rhoi rhywbeth i mi edrych ymlaen ato ac yn fy helpu i godi o'r gwely ar fore Llun. Rwyf wrth fy modd yn treulio amser gyda'r bobl eraill dan sylw, mae'n teimlo mor dda i allu helpu i ailgynllunio'r wefan ar gyfer y GIG.

Rwyf mor ddiolchgar am y grŵp hwn; mae'n bendant yn rhywbeth cadarnhaol yn ystod y cyfnod clo.

Cyflwynir Mewnwelediad creadigol gan Tanio, cleient portffolio i Gyngor Celfyddydau Cymru, sydd wedi ymrwymo i danio creadigrwydd, cymuned a newid.

YSBYTY DEWI SANT

MIWSIG I'R GLUST

OPERA CENEDLAETHOL CYMRU

Mae Opera Cenedlaethol Cymru bob amser wedi bod wrth wraidd ein rhaglen gerddoriaeth gan gynnig sesiynau rhyngweithiol mewn wardiau.

Gan nad yw hyn yn bosib mwyach, rydym yn gweithio gyda'r tîm yn Opera Cenedlaethol Cymru a Materion Iechyd Meddwl i ddarparu sesiynau yn y cwrt i gleifion eu mwynhau, cyngerdd Nadoligaidd a hefyd sesiynau rhithwir i gleifion eu mwynhau drwy dechnoleg teledu clyfar. Mae'r sesiynau rhyngweithiol wedi bod yn hynod lwyddiannus. Buont yn gweithio gyda'n cydweithwyr Materion Iechyd Meddwl Anne a Rebecca i gyflwyno'r sesiynau.



Cafodd Anne a Rebecca lechen yr un gan fynd o gwmpas dwy ward yn treulio llawer iawn o amser gyda phob person ac roedd hynny yn caniatáu i'r perfformwyr ddweud helo a chael sgwrs fach, cyflwyno cân yn uniongyrchol ac yna perfformio. Rhoddodd pob claf adborth hyfryd iawn a dweud wrthym eu bod yn ei fwynhau'n fawr, a rhoi diolch i'r perfformwyr am 'dreulio amser gyda nhw'. Roedd llawer o gymeradwyaeth a gallem weld llawer o wefusau yn symud i'r caneuon!

Fel ychwanegiad, darparodd Opera Cenedlaethol Cymru adnoddau crefft ar thema opera y gellir eu gwneud a'u defnyddio ym mhob sesiwn fel propiau, sy'n ychwanegu'r cyffyrddiad ychwanegol hwnnw i'r cleifion a'r staff.

Dywedodd April Heade o Opera Cenedlaethol Cymru "Fe gyrhaeddon ni tua 16 o gleifion yn y sesiwn gychwynnol, ynghyd â thua 4 o staff a gafodd olwg fach. Roedd hyd yn oed gŵr a gwraig ar yr un ward a ddywedodd wrthym eu bod yn canu gyda Chorws Cymunedol WNO ychydig flynyddoedd yn ôl felly roedd hynny'n gysylltiad hyfryd... byddwn yn cyrraedd mwy o bobl mewn sesiynau dilynol gan y byddwn yn cyflwyno'r sesiynau i drydedd ward."

Roedd Opera Cenedlaethol Cymru hefyd yn garedig iawn yn recordio rhai caneuon Nadoligaidd i'n cleifion a'n staff gael eu mwynhau dros gyfnod y Nadolig.

ADRODDIAD BLYNYDDOL

YSBYTY ATHROFAOL CYMRU

CYMRU AC AFFRICA

WALES AND AFRICA

CYMRU AC AFFRICA

Yn ddiweddar, bu tîm y Celfyddydau dros Iechyd a Llesiant yn gweithio ar brosiect yn tynnu sylw at y gwaith anhygoel a wnaed gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro mewn cydweithrediad â sefydliadau partner eraill a Llywodraeth Cymru ar Raglen Cymru ac Affrica. Mae gan y Bwrdd Iechyd Prifysgol grŵp Cydgysylltu amlddisgyblaethol sy'n goruchwylio ac yn cefnogi ein partneriaethau yn Is-Sahara Affrica, rydym yn falch iawn o'n mentrau gwaith o rannu sgiliau, sefydlu perthynas waith gadarnhaol a chydweithredol a helpu i adeiladu cymunedau cryfach yn Affrica.

Roeddem am rannu'r gwaith da sydd wedi'i wneud ac sy'n parhau i gael ei wneud gyda'n cleifion a'n staff ac rydym wedi nodi lle yn Ysbyty Athrofaol Cymru i'w ddefnyddio fel man arddangos parhaol ar gyfer lluniau gwych o waith Cymru ac Affrica yn ogystal â byrddau gwybodaeth ar y prosiectau. Gwnaed hyn yn bosibl drwy gyllid gan Raglen y Celfyddydau dros Iechyd a Llesiant, ynghyd â rhodd hael gan Amazon UK.

Edrychwn ymlaen at arddangos y gwaith a gwylio rhaglen Cymru ac Affrica yn parhau i dyfu a ffynnu.

AGENDA POBL DDUON, ASIAIDD A LLEIAFRIFOEDD ETHNIG

Mae'r mudiad Mae Bywydau Du o Bwys wedi tynnu ein sylw at yr holl faterion a rhwystrau a wynebir bob dydd yma a thramor gan ein cleifion, cydweithwyr a ffrindiau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME).

Mae hefyd wedi tynnu ein sylw at y ffyrdd niferus y mae angen i ni barhau i symud ymlaen a newid i ddileu'r rhwystrau hyn. Rydym yn cydnabod bod problemau i'w cael yma yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg, nid dim ond mewn mannau eraill ac rydym yn cefnogi ein cydweithwyr BAME ac yn erbyn pob hiliaeth, a rhagfarn neu ymddygiad gwahaniaethol.

Mae staff o'r gymuned BAME yn chwarae rhan mor sylfaenol yn y GIG yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg, ac yn gwneud cyfraniad hanfodol iddo, ar draws ymarfer cyffredinol, cymunedol, iechyd meddwl, ein gwasanaethau ysbyty, ac ar draws comisiynu. Rydym yn falch iawn o'u gwaith a'u hymrwymiad fel rhan o dîm ehangach y GIG. Heb y cyfraniad hwn, ni fyddem yn gallu cynnig lefel y gofal a'r gwasanaethau i gleifion y mae cleifion ei hangen.

Rydym yn deall pwysigrwydd arwain drwy esiampl i ymgorffori newid cadarnhaol a chadw hyder ac ymddiriedaeth ein cydweithwyr BAME. Rydym am gomisiynu projectau celf i ddangos negeseuon o gefnogaeth, parch ac ailddatgan ein hymrwymiad i barhau i weithio gyda'n staff, ein cydweithwyr a rhoi cymorth fel rhan o'n cyd-ymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant i bawb, nid dim ond pan mae hyn yn cael ei amlygu yn y cyfryngau, ond bob dydd. Gwnaethom alw ar artistiaid i gyflwyno cynigion er mwyn ein helpu i wneud hyn ac edrychwn ymlaen at ddadlennu'r prosiectau a gwblhawyd yn 2021.

ADRODDIAD BLYNYDDOL

MIWSIG I'R GLUST

Oherwydd COVID, rydym wedi gorfod addasu'r ffordd rydym yn cynnig cerddoriaeth i'n cleifion a'n staff. Yn hanesyddol, rydym wedi gallu gwahodd cerddorion i'n mannau clinigol i wella profiad y claf a'r staff tra yn yr ysbyty, ond mae angen i ni chwilio am ffyrdd newydd ac arloesol o gadw ein rhaglen gerddoriaeth i weithio'n dda ac yn ddiogel i bawb. Rydym yn gweithio gyda nifer o sefydliadau partner i ddarparu ein rhaglen gerddoriaeth i gleifion.

CORWS N'AD FI'N ANGOF

Mae'r Corws N'ad Fi'n Angof wedi darparu rhai cyngherddau awyr agored i gleifion a staff yn Ysbyty Dewi Sant ar y cyd â'r tîm Materion Iechyd Meddwl. Roeddent yn defnyddio iard i berfformio, y gellir ei gweld o ystafelloedd cleifion ar y llawr uchaf. Roedd y staff yn olwyno cleifion i'r ffenestri ac yn eu hagor i sicrhau y gellid clywed a gwerthfawrogi'r gerddoriaeth. Mae'r cyngherddau hyn wedi eu gwerthfawrogi gymaint gan gleifion nad oeddent, oherwydd COVID, yn gallu cael ymwelwyr ac roeddent yn edrych ymlaen at y sesiynau hyn.

Mae'r Corws N'ad Fi'n Angof hefyd yn cyflenwi DVDs cerddorol i'n cleifion oedrannus eu mwynhau a'u chwarae dros dymor yr ŵyl a chynnig sesiynau rhithwir i bawb eu mwynhau. Rydym wedi sicrhau bod technoleg a chymorth ar gael i'n cleifion i'w defnyddio fel y gallant fwynhau'r holl sesiynau cerddoriaeth rithwir.



HARMONI CYMRU

Mae Harmoni Cymru wedi bod yn allweddol wrth ganiatáu i ni gynnig cerddoriaeth ar wardiau i'n cleifion a'n staff, ac er bod cyfyngiadau wedi golygu nad yw perfformiadau mewn wardiau wedi gallu parhau, mae cerddorion Harmoni wedi parhau i weithio gyda ni drwy gydol y cyfnod clo. Maent wedi darparu DVD ac adnoddau ar-lein yn ogystal â'r sesiynau Seibiant Creadigol ar gyfer staff a chleifion yn Lakeside Ysbyty Athrofaol Caerdydd. Maent hefyd wedi recordio cerddoriaeth Nadoligaidd i'n cleifion ei mwynhau yn eu hamser hamdden drwy gydol cyfnod yr ŵyl.

ADRODDIAD BLYNYDDOL

LEDLED Y BWRDD IECHYD PRIFYSGOL

NATHAN WYBURN

Mae Nathan Wyburn yn noddwr balch i Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro ac mae wedi creu nifer o ddarnau gwych o gelf ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a'r GIG ehangach. Gwnaethom hefyd gomisiynu Nathan i greu mosaig o ffotograffau staff GIG Cymru i nodi Diwrnod Rhyngwladol y Nyrsys (12 Mai).

Gyda'i gilydd, mae'r teils yn ffurfio portread mwy o'r nyrs arloesol Florence Nightingale. Mae eleni'n nodi 200 mlynedd ers ei geni – diwrnod sydd wedi dod i'w weld ledled y byd bob blwyddyn fel dathliad o'r cyfraniad pwysig y mae nyrsys yn ei wneud i gymdeithas.

PRIDE: SYMUD GYDA'N GILYDD

MOLLY MAI LEWIS

Yr artist Molly May Lewis, sy'n rhan o Dîm Celfyddydau Iechyd a Llesiant Caerdydd a'r Fro wedi creu gosodiad arbennig o'r enw "Symud Gyda'n Gilydd" i ddathlu Pride Cymru 2020 sy'n arddangos cefnogaeth a phwysigrwydd parhaus cynwysoldeb ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

40 print sgrîn unigol wedi eu gosod ar bren a'u harddangos mewn fframiau a wnaed â llaw.

"Yn y pen draw mae Symud Gyda'n Gilydd yn symbol o unigolyddiaeth ond hefyd o ddod ynghyd wrth i ni barhau i greu cymdeithas fwy cynhwysol. Gan gyfeirio at faner flaengar Pride, mae fy ngwaith yn amlygu pwysigrwydd cymuned sydd wedi, ac sydd, yn gwneud cynnydd mawr ond heb anghofio bod yn rhaid symud tuag ymlaen gyda'n gilydd."

Molly May Lewis – Artist

"Rydym mor falch bod Molly wedi cynhyrchu'r gwaith hwn i ni. Mae Molly wedi bod yn rhan annatod o ddathliad Pride y Bwrdd Iechyd ers nifer o flynyddoedd ac roeddem am sicrhau ein bod yn parhau i fod yn arloesol ar gyfer Balchder Rhithwir eleni ac yn parhau i gefnogi ein hymarferwyr creadigol."

Simone Joslyn, Pennaeth y Celfyddydau ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

ADRODDIAD BLYNYDDOL

IECHYD MEDDWL

GŴYL Y RHUBAN GWYRDD

Mae Gŵyl Gelfyddydau'r Rhuban Gwyrdd, sy'n cael ei hariannu gan Gyngor Celfyddydau Cymru a Sefydliad Baring, yn ddigwyddiad newydd sbon yng Nghymru, i hyrwyddo sut y gall y celfyddydau atal a lliniaru salwch meddwl, herio canfyddiadau, a gwella rhwydweithio'r artist. Mae'r digwyddiad yn cael ei 'bweru gan y Sefydliad Iechyd Meddwl'

Mae gan y Sefydliad Iechyd Meddwl weledigaeth o iechyd meddwl da i bawb. Mae'n gweithio i atal problemau iechyd meddwl. Mae am ysgogi newid tuag at gymdeithas feddyliol iach i bawb, a chefnogi cymunedau, teuluoedd ac unigolion i fyw bywydau iachach yn feddyliol, gan ganolbwyntio ar y rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf. Mae hefyd yn gartref i Wythnos Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl.

Mae Gŵyl Gelfyddydau'r Rhuban Gwyrdd wedi bod yn arddangos gwaith artistiaid ac ymarferwyr sy'n cefnogi pobl â salwch meddwl, tra hefyd yn sicrhau bod anghenion cymorth artistiaid sy'n gweithio ym maes y celfyddydau ac iechyd yn cael eu diwallu. Roedd yr ŵyl yn cynnwys sesiynau rhwydweithio, a gynhaliwyd gan rwydwaith Iechyd a Lles Celfyddydau Cymru i gefnogi ymarferwyr a sefydliadau creadigol drwy ymchwil, eiriolaeth a hyfforddiant, tra'n archwilio anghenion cymorth anhwylderau ymarferwyr creadigol sy'n gweithio mewn lleoliadau Iechyd a Llesiant.

Rydym wedi bod mor falch o gael y cyfle i gyfrannu at y gwaith gwych y mae'r ŵyl hon yn ei wneud drwy godi ymwybyddiaeth o gyflyrau Iechyd Meddwl. Yn ddiweddar, rhoesom lwyfan i'r artist gweledol a'r ffotograffydd gwych Suzie Larke. Mae ei harddangosfa, Unseen, yn arddangosfa o ffotograffiaeth gysyniadol newydd sy'n rhoi ffordd i'r rhai sydd â phrofiadau iechyd meddwl gyfieithu eu profiadau a chyfleu'r hyn sy'n anodd ei roi mewn geiriau drwy gyfrwng ddelweddau ac iaith weledol.

Mae Unseen yn cyfleu'r neges bod profiadau iechyd meddwl, y gellid eu hystyried y tu hwnt i fynegiant a dealltwriaeth gan eraill, yn rhywbeth y gall y byd y tu allan ei rannu a'i gydnabod ac nad oes angen ei ddioddef ar wahân. Mae'r arddangosfa'n cynnig mewnwelediad i fyd fel y'i gwelir gan grŵp o gyd-grewyr, gan 'weld' y trafferthion y gallant fod yn eu hwynebu o ddydd i ddydd. Mae'r gwyliwr yn arsylwi emosiwn neu brofiad, yn hytrach na dim ond cael cip o ennyd mewn amser.



Rwy'n gweithio fel ymgynghorydd gofal lliniarol yn Ysbyty Llandochau. Rwy'n gweld yr arddangosfeydd celf ar y coridorau ac yn yr oriel fel 'ailwefru' rhwng cleifion, ac yn aml byddaf yn sefyll yn stond rhwng wardiau pan welaf arddangosfa sy'n drawiadol mewn rhyw ffordd neu'i gilydd. Enghraifft ddiweddar yw gwaith Suzie Larke ar unigedd, a'n trawodd i'r byw. Mae llawer o'm cleifion wedi cael trafferth bod gartref yn ystod Covid-19, a phan fyddaf wedi cynnal fideos ymgynghori gyda nhw daeth yn amlwg nad oeddent wedi siarad ag unrhyw un ers amser maith.

Dr Mark Tauber, Cyfarwyddwr Clinigol Meddygaeth Liniarol ac Uwch Ddarlithydd Anrhydeddus

ADRODDIAD BLYNYDDOL

COLEG ADFER A LLESIANT

Mae tîm y Celfyddydau yn falch iawn bod dau gais am arian gan Banel loteri'r staff wedi'u cytuno'n ddiweddar sy'n caniatáu i Dîm y Celfyddydau dros Iechyd a Llesiant weithio gyda'r Coleg Adfer a Llesiant.

Mae'r Coleg yn cynnig cyrsiau am ddim ar ystod o bynciau iechyd meddwl a llesiant i bobl sydd wedi neu sy'n defnyddio ngwasanaethau iechyd meddwl ar hyn o bryd, eu gofalwyr, holl staff y Bwrdd Iechyd, neu unigolion sy'n gweithio ym maes iechyd meddwl yn yr Awdurdod Lleol a'r Sector Elusennol.

Wedi'i ategu gan egwyddorion adfer a chyd-gynhyrchu, mae'r Coleg Adfer a Llesiant yn hyblyg ac mae ganddo ffocws addysgol, gyda hyrwyddo llesiant yn greiddiol iddo.

Y cais cyntaf oedd comisiynu canwr â phrofiad o gyflwyno i bobl â heriau iechyd meddwl i weithio gyda hyfforddwr proffesiynol cymheiriaid i gynnig cwrs. Canfuwyd canwr sydd â phrofiad o weithio gyda phobl sydd â dementia ac neu sy'n gwella o strôc. Bydd y cwrs yn addysgu strategaethau i gyfranogwyr wedi eu seilio ar ganu megis gwaith anadlu, rheoleiddio emosiynol a bod yn rhan o grŵp sy'n meithrin sgiliau cymdeithasol, hunan-barch a hyder. Mae cyrsiau ar gael i'r holl staff, pobl â phrofiad go iawn o faterion iechyd meddwl a'u gofalwyr.

Yr ail gais oedd ariannu dau diwtor i ddarparu cyrsiau iechyd meddwl a llesiant i gleifion, staff a gofalwyr yn y coleg adfer. Mae'r cyllid ar gyfer darparu deunyddiau celf i alluogi myfyrwyr i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhithwir yn ystod Covid. Mae'r ddau brosiect hyn yn caniatáu i dîm y Celfyddydau ddatblygu a chryfhau ein ffrydiau gwaith yn y gymuned ymhellach a chaniatáu i'n negeseuon ar y Celfyddydau ar gyfer iechyd a llesiant dyfu y tu hwnt i gyfyngiadau cyllidebol tîm y Celfyddydau.

Dywedodd Hannah Morland-Jones o'r Coleg Adfer "mae hwn yn gyfle gwych i ehangu'r cyrsiau sydd ar gael yn y Coleg Adfer, ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth ar draws yr ystod oedran a gwella lles staff, defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr drwy'r celfyddydau. Heb yr Elusen Iechyd byddem yn ei chael hi'n anodd cyflawni ein huchelgeisiau i ddarparu ystod eang iawn o gyrsiau neu i recriwtio pobl sydd â sgiliau mor unigryw i'w cynnig i'n myfyrwyr.

Gobiath · Rheolaeth · Cyfle

Caerdydd a'r Fro
Coleg Adfer a Lles

EIN HUCHELGAIS 2020-2021

- **Adeiladu ar lwyddiant rhaglen 2020, gan barhau i ddatblygu ein rhaglenni rhithwir ochr yn ochr â phrosiectau ail-ddatblygu gyda phresenoldeb corfforol mewn mannau clinigol.**
- **Comisiynu celf ar gyfer trosglwyddo gwasanaethau o Ysbyty Rookwood, i Ysbyty Athrofaol Llandochau.**
- **Defnyddio Celf i hyrwyddo'r dathliad 25 mlynedd ac i ymgysylltu'n rhagweithiol â'r ganolfan Dyfodol iechyd a llesiant yn Ysbyty'r Barri.**
- **Cychwyn rhaglen Gelf Tŷ Coetir Weithredol i ymgorffori rhaglen y Celfyddydau wrth ddarparu a newid gwasanaethau**
- **Gweithio gyda'r Tîm Cardioleg er mwyn helpu i ddarparu elfen ysgogol ac o ddynodi llwybrau ar goridorau'r ardaloedd newydd eu hadnewyddu yn Ysbyty Athrofaol Cymru.**
- **Parhau i weithio gydag Amgueddfa Genedlaethol Cymru i wella ein mannau clinigol.**
- **Edrych ar gynhyrchiant incwm ar gyfer cronfa'r Celfyddydau.**
- **Comisiynu rhai prosiectau celfyddydol cynhwysol.**
- **Gweithio gyda'n sefydliadau trydydd sector i hyrwyddo creadigrwydd a darpariaeth celf yn ein cymunedau.**
- **Archwilio cyfleoedd ar gyfer ardaloedd o fyfyrio ar draws ein hystadau Ysbytai.**
- **Gweithio gyda phartneriaid newydd, fel Canolfan Mileniwm Cymru er mwyn parhau i ddod o hyd i ffyrdd o ymgysylltu â'n cymunedau.**

Manon Bradbeer

ADRODDIAD BLYNYDDOL

MYFYRDODAU

Mae defnyddio celf i ddiolch i staff gofal iechyd am eu hymdrechion a'u haberth yn rhywbeth y mae llawer o aelodau'r cyhoedd wedi dibynnu arno yn lle gallu gwneud unrhyw beth yn bersonol ar wahân i gylch wythnosol o gymeradwyaeth.

Mae'n teimlo fe na allwch gerdded i lawr stryd heb fod o leiaf un t yn dangos diolch ei breswylydd â balchder yn y ffenestr flaen. Mae'r mynegiant cymunedol hwn o ddiolchgarwch yn rhywbeth yr oedd tîm y celfyddydau am ei efelychu ac mae wedi bod yn sbardun canolog i'r gwaith sydd wedi'i wneud yn ddiweddar.

Ail amcan fu sicrhau bod cleifion yn parhau i elwa o'r celfyddydau lle bynnag y bo modd ac, yn hollbwysig, nad effeithir yn negyddol ar eu llesiant drwy roi'r gorau i'r gwahanol raglenni yr oeddent wedi'u cofrestru arnynt a allai arwain o bosibl at leihad mewn symudiad neu ymdeimlad cynyddol o unigedd tra yn yr ysbyty.

Dwedodd Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Len Richards:

"Rydym yn falch iawn o'n rhaglen Celfyddydau dros Iechyd a Llesiant ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro gyda chefnogaeth Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro.

Ers ei sefydlu mae tîm y Celfyddydau wedi helpu i ddod â'r celfyddydau i'n cleifion mewn ysbytai a lleoliadau cymunedol, gan wella eu profiad gofal iechyd a chynnig seibiant rhag yr amgylcheddau clinigol. Mae Oriel Hearth yn YALl wedi chwarae rhan annatod yn hyn, ni yw'r unig ddarparwr gofal iechyd yng Nghymru sydd ag oriel Gelf mewn ysbyty ac mae'n adnodd amhrisiadwy i gleifion, staff ac aelodau o'r cyhoedd.

Rwy'n ymweld â'r oriel a gofod arddangos Plaza pryd bynnag yr wyf yn Ysbyty Athrofaol Llandochau ac mae fy nghalon yn codi bob tro ar ôl gweld y gwaith celf anhygoel sydd gennym yn cael ei arddangos yno, bydda i bob amser yn cymryd eiliad i sefyll yn yr oriel a myfyrio.

Yn ystod y cyfnod heriol hwn, ni fu erioed yn bwysicach darparu mannau llonydd a thawel a chaniatáu i'n cleifion, staff a gwirfoddolwyr ddianc rhag yr amgylchedd ysbyty hynod brysur sy'n aml yn amgylchedd emosiynol. Rwy'n falch iawn bod ein rhaglen Gelfyddydau yn parhau i ddarparu ysgogiad diwylliannol a chysur i bob un ohonom er gwaethaf yr heriau presennol yr ydym i gyd yn eu hwynebu. Byddaf bob amser yn edrych ymlaen at yr arddangosfa nesaf ac rwyf wrth fy modd ein bod hefyd yn darparu prosiectau celf ar draws ein holl ystadau ac i'r gymuned".

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am unrhyw un o'r prosiectau a grybwyllir yn yr adroddiad hwn neu gydweithrediadau yn y dyfodol, cysylltwch â ni drwy e-bost: Alex.staples2@wales.nhs.uk

ARTS FOR HEALTH AND WELLBEING

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale University Health Board

Cardiff & Vale HealthCharity ElusenIechyd Caerdydd a'r Fro

GYDA DIOLCH I

Cardiff and Vale Recovery & Wellbeing College

FORGET ME NOT CHORUS
Supporting people with dementia and their families through the joy of song

Arts & Business Cymru

ORIEL YR AELWYD HEARTH GALLERY virtual

HARMONI CYMRU

RUBICON DANCE

WNO WELSH NATIONAL OPERA CENEDLAETHOL CYMRU

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

ORIEL YR AELWYD HEARTH GALLERY

C3SC

DIOLCH O GALON I'R HOLL ARTISTIAID GWYCH, TALENTOG YR YDYM WEDI CAEL Y PLESER O WEITHIO GYDA NHW DROS Y 12 MIS DIWETHAF.